

General Optical Council



**Canllawiau  
atodol ar y  
ddyletswydd  
gonestrwydd  
broffesiynol**

## Cynnwys

Beth yw'r ddyletswydd gonestrwydd broffesiynol?

4

Gwybodaeth am y canllawiau hyn

8

Bod yn agored pan fydd pethau wedi mynd o chwith

11

Siarad â'r rhai sy'n agos at y claf 13


Digwyddiadau andwyol na wnaethant arwain at niwed neu drallod

13

Dysgu o ddigwyddiadau andwyol

14

Optometryddion ac optegwyr cyflenwi gyda \_\_\_\_\_ 16  
chyfrifoldebau rheoli neu broffil uchel



**Beth yw'r  
ddyletswydd  
gonestrwydd  
broffesiynol?**

## Beth yw'r ddyletswydd gonestrwydd broffesiynol?

1. Mae gan bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ddyletswydd gonestrwydd broffesiynol – mae hwn yn gyfrifoldeb proffesiynol i fod yn agored, yn onest ac yn dryloyw gyda chleifion pan fydd pethau'n mynd o chwith.
2. Cytunwyd ar y ddyletswydd gonestrwydd broffesiynol hon ym mis Hydref 2014 mewn datganiad ar y cyd gan wyth rheoleiddiwr gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn y DU.<sup>1</sup> Roedd hyn mewn ymateb i ganfyddiadau ac argymhellion Ymchwiliad Cyhoeddus Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol Swydd Stafford (Ymchwiliad Francis) i ofal gwael i gleifion yn Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol Swydd Stafford yn 2013 ac ymateb Llywodraeth y DU i'r Ymchwiliad hwn: *Hard Truths: The Journey to Putting Patients First* a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014.
3. Mae *Safonau Ymarfer y Cyngor Optegol Cyffredinol ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi* (safon 19) a *Safonau ar gyfer Myfyrwyr Optegol* (safon 18) yn adlewyrchu'r ddyletswydd gonestrwydd broffesiynol hon.

---

1 Y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol, y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Cyngor Fferyllol Cyffredinol, y Cyngor

Osteopathig Cyffredinol, y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal, y Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth, Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon.

## Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi

### 19. Byddwch yn agored pan fydd pethau wedi mynd o chwith.

19.1 Byddwch yn agored ac yn onest gyda'ch cleifion pan fyddwch wedi canfod bod pethau wedi mynd o chwith gyda'u triniaeth neu ofal sydd wedi arwain atynt yn dioddef niwed neu drallod neu lle gallai fod goblygiadau ar gyfer gofal cleifion yn y dyfodol. Rhaid i chi:

19.1.1 Ddweud wrth y claf neu, lle bo'n briodol, eiriolwr, gofalwr neu deulu'r claf bod rhywbeth wedi mynd o'i le.

19.1.2 Cynnig ymddiheuriad.

19.1.3 Cynnig ateb neu gymorth priodol i unioni pethau (os yw'n bosibl).

19.1.4 Esbonio'n llawn ac yn brydlon beth sydd wedi digwydd a'r effeithiau tymor byr a thymor hir tebygol.

19.1.5 Amlinellu'r hyn y byddwch yn ei wneud, lle bo'n bosibl, i'w atal rhag digwydd eto a gwella gofal i gleifion yn y dyfodol.


19.2 Bod yn agored ac yn onest gyda'ch cydweithwyr, cyflogwyr a sefydliadau perthnasol, a chymryd rhan mewn adolygiadau ac ymchwiliadau ar gais a gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol, gan godi pryderon lle bo'n briodol. Cefnogi ac annog eich cydweithwyr i fod yn agored ac yn onest, a pheidio â rhwystro rhywun rhag mynegi pryderon.

19.3 Pan fydd pethau'n mynd o chwith, gwnewch yn siŵr eich bod yn ystyried eich rhwymedigaethau i adlewyrchu a gwella eich ymarfer fel yr amlinellir yn safon 5.



4. Ni ddylai bod yn agored gael ei gamddeall fel cyfaddef atebolrwydd neu wneud rhywbeth o'i le. Nid yw ymddiheuriad neu gam arall a gymerir yn unol â'r canllawiau hyn ynddo'i hun yn gyfystyr â chyfaddef esgeuluster neu dorri dyletswydd statudol. Y camau a gymerir, boed ar eich rhan chi, eich cyflogwr neu gydweithiwr gofal iechyd arall yw'r peth iawn i'w wneud ar gyfer y claf.
5. Ni ddylid drysu rhwng bod yn agored â delio â chwynion. Mae'r canllawiau hyn ar onestrwydd yn berthnasol p'un ai a oes cwyn wedi'i gwneud ai peidio neu a oes pryder wedi'i godi.
6. Ni ddylid drysu rhwng y ddyletswydd gonestrwydd broffesiynol hon a'r ddyletswydd gonestrwydd gontractiol na'r ddyletswydd gonestrwydd statudol. Mae'r rhain yn ddyletswyddau ar wahân sy'n berthnasol i ddarparwyr sydd â chontract i ddarparu gofal y GIG a sefydliadau sy'n cael eu rheoleiddio gan y Comisiwn Ansawdd Gofal. Nid yw'r dyletswyddau hyn yn debygol o fod yn berthnasol i chi fel unigolyn.
7. Ni ddylid drysu rhwng y canllawiau hyn a pholisi'r GOC ar Godi Pryderon gyda'r GOC (chwythu'r chwiban). Mae'n canolbwyntio ar y sgwrs sy'n ofynnol gyda'r claf pan fydd rhywbeth wedi mynd o'i le. Bydd angen i chi ystyried ar wahân a oes gofyniad i gymryd unrhyw gamau pellach yng nghyswllt codi pryderon.





**Sut mae'r  
canllawiau'n  
berthnasol  
i chi**

## Ynglŷn â'r canllawiau hyn

8. Mae'r ddogfen hon yn rhoi arweiniad ar sut i fodloni safon y GOC ar y ddyletswydd gonestrwydd broffesiynol. Nid yw'n creu gofynion newydd nac yn rhoi cyngor cyfreithiol.
9. Mae'r gair 'rhaid' yn nodi gofyniad gorfodol, er enghraifft, rhaid i gofrestryddion gydymffurfio â'r gyfraith a rhaid iddynt fodloni safonau'r GOC.
10. Dylech ddefnyddio eich barn broffesiynol i gymhwyso'r canllawiau hyn i'ch ymarfer eich hun a'r amrywiaeth o leoliadau y gallech weithio ynddynt.
11. Os nad ydych yn siŵr sut i symud ymlaen mewn sefyllfa benodol, dylech ofyn am gyngor gan gydweithwyr proffesiynol priodol, eich cyflogwr, eich darparwr yswiriant indemniad proffesiynol, eich corff proffesiynol neu gynrychiolydd, neu gael cyngor cyfreithiol annibynnol.
12. Dylai optometryddion sy'n fyfyrwyr ac optegwyr cyflenwi hefyd ofyn am gyngor gan eu tiwtor, eu goruchwyliwr neu eu darparwr hyfforddiant.
13. Efallai y bydd cymorth ar gael hefyd gan gyflogwyr sydd â pholisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi diwylliant o fod yn agored ac yn dryloyw. Dylai'r rhain amlinellu sut mae'r cyflogwr yn rheoli achosion o dorri'r ddyletswydd gonestrwydd broffesiynol, gan gynnwys ymchwilio i unrhyw achosion lle gallai aelod o staff fod wedi rhwystro rhywun arall wrth arfer ei ddyletswydd gonestrwydd.
14. Drwy gydol y canllawiau rydyn ni'n siarad am eich cyfrifoldebau tuag at gleifion neu bobl yn eich gofal. Rydym yn cydnabod bod gofal yn aml yn cael ei ddarparu gan nifer o wahanol weithwyr optegol proffesiynol neu ar y cyd â mathau eraill o weithwyr gofal iechyd proffesiynol ac y

gallech chi fod yn un o nifer o weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â gofal claf.

15. Er y bydd gan bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ddyletswydd gonestrwydd broffesiynol, ni fyddem yn disgwyl i bob gweithiwr proffesiynol sy'n ymwneud â'r llwybr gofal siarad â'r claf am yr un digwyddiad. Ond mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr bod rhywun priodol – y prif glinigydd neu'r clinigydd atebol fel arfer – yn cymryd cyfrifoldeb dros siarad â'r claf neu (mewn rhai sefyllfaoedd) y rheini sy'n agos ato os bydd rhywbeth yn mynd o'i le.



**Canllawiau ar  
y ddyletswydd  
gonestrwydd**

## Byddwch yn onest pan fydd pethau wedi mynd o chwith.

16. Mae'r ddyletswydd gonestrwydd broffesiynol yn berthnasol pan fyddwch yn dod yn ymwybodol bod rhywbeth wedi mynd o'i le a bod claf yn eich gofal wedi dioddef niwed neu drallod corfforol neu seicolegol, neu gallai fod goblygiadau i'w ofal yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys mân ddigwyddiadau sy'n achosi gofid dros dro (er enghraifft, defnyddio diferion llygaid anghywir a allai achosi effaith annymunol fel golwg aneglur) neu ddigwyddiadau mwy difrifol (er enghraifft, methu canfod arwyddion o glefyd neu annormaledd).
17. Mae bod yn agored ac yn onest yn golygu bod yn rhaid i chi roi gwybod i'r claf am yr hyn sydd wedi mynd o'i le. Bydd hyn fel arfer yn golygu siarad â'r claf cyn gynted â phosibl ar ôl i chi sylweddoli bod rhywbeth wedi mynd o'i le gyda'i ofal.
18. Nid oes angen i chi aros tan ganlyniad ymchwiliad cyn siarad â chlaf. Rhaid dweud wrth y claf:
  - bod rhywbeth wedi mynd o'i le;
  - beth ddigwyddodd;
  - yr effeithiau tymor byr a thymor hir tebygol;
  - beth y gellir ei wneud i unioni pethau; a
  - beth y gellir ei wneud i osgoi iddo ddigwydd eto a gwella gofal cleifion.
19. Rhaid i chi hefyd gynnig ymddiheuriad. Nid yw ymddiheuro yn golygu cyfaddef atebolrwydd neu ddrwgweithredu ond mae'n bwysig i gleifion eich bod yn mynegi edifeirwch am unrhyw niwed, trallod neu ganlyniadau andwyol i'w hiechyd a'u lles.

20. Mae cynnig ymddiheuriad yn rhan bwysig o fod yn agored gan ei fod yn dangos eich bod yn cydnabod effaith y sefyllfa ar y claf a'ch bod yn cydymdeimlo ag ef.
21. Efallai y bydd cleifion yn eich gweld yn fwy ystyrlon os ydych chi'n ymddiheuro'n bersonol am rywbeth sy'n mynd o'i le.

22. Wrth siarad â chlaf, dylech ystyried y canlynol:
- a. Rhaid i chi rannu gwybodaeth mewn ffordd y gall y claf ei deall.
  - b. Dylech roi gwybodaeth a allai beri gofid i'r claf mewn ffordd ystyriol, er enghraifft, gofyn iddo a hoffai gael rhywun gydag ef.
  - c. Dylech barchu hawl eich claf i breifatrwydd ac urddas, gan sicrhau bod sgysiau'n cael eu cynnal mewn lleoliadau priodol lle bo hynny'n bosibl.
  - d. Os oes ymchwiliad parhaus, dylech fod yn glir nad yw'r ffeithiau wedi'u sefydlu eto. Dywedwch wrthynt dim ond yr hyn rydych chi'n ei wybod a'i gredu sy'n wir, ac atebwch unrhyw gwestiynau'n onest ac mor llawn ag y gallwch.
  - e. Dylech wneud yn siŵr bod y claf yn gwybod â phwy i gysylltu i ofyn unrhyw gwestiynau pellach neu i godi pryderon.
  - f. Dylech gofnodi manylion eich ymddiheuriad yng nghofnod clinigol y claf. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd angen ymddiheuriad ysgrifenedig ar ôl ymddiheuriad llafar.
23. Os nad ydych chi'n gallu ymddiheuro i'r claf, neu'r rheini sy'n agos ato, gyda'r gofal a'r trugaredd gofynnol, rhaid i chi wneud y canlynol:
- a. sicrhau bod unigolyn priodol yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb i siarad â'r claf. Gallai hyn fod o fewn eich tîm optegol eich hun neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol gwahanol sy'n gweithio gyda chi i ddarparu gofal i'r claf, er enghraifft, offthalmolegydd; a



b. datblygu eich sgiliau a'ch profiad yn y maes hwn i gyflawni'r rôl hon yn y dyfodol.

## Siarad â'r rhai sy'n agos at y claf

24. Os nad yw'r claf yn ymwybodol neu nad oes ganddo'r gallu, rhaid i chi fod yn agored ac yn onest gyda'r rhai sy'n agos at y claf. Cymerwch amser i gyfleu'r wybodaeth mewn ffordd dosturiol, gan roi cyfle iddynt ofyn cwestiynau ar y pryd ac wedyn. Dylech gyfeirio at ein canllawiau cydsynio i gael rhagor o wybodaeth ynghylch pryd mae'n briodol trafod gofal claf gyda'r rhai sy'n agos ato.
25. Dylech wneud yn siŵr, cyn belled ag y bo modd, bod y rhai sy'n agos at y claf wedi cael cynnig cymorth priodol, a bod ganddynt bwynt cyswllt penodol rhag ofn y bydd ganddynt bryderon neu gwestiynau yn ddiweddarach.

## Digwyddiadau andwyol nad oeddent wedi arwain at niwed neu drallod

26. Weithiau fe allech ddod ar draws digwyddiad andwyol yn ymarferol a allai fod wedi achosi niwed neu drallod ond ni ddigwyddodd hyn, er enghraifft, oherwydd camau ataliol y gallech fod wedi'u cymryd. Dylech ddefnyddio eich barn broffesiynol wrth ystyried a ydych am roi gwybod i gleifion am y digwyddiadau hyn.
27. Dylech ystyried a allai methu bod yn agored niweidio ei ymddiriedaeth ynoch chi a'r tîm gofal iechyd. Efallai y bydd gwybodaeth y byddai'r claf eisiau neu angen gwybod amdani ac, yn yr achosion hyn, dylech siarad â'r claf am yr hyn sydd wedi digwydd. Er enghraifft, rydych yn darganfod bod dyddiad yr archwiliad dilynol ar gyfer claf wedi'i gofnodi'n anghywir ar gofnod claf neu nad yw atgyfeiriad y cytunwyd arno gyda'r claf wedi'i anfon ymlaen at y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol perthnasol. Yn y ddau achos, efallai na fydd hyn wedi arwain at niwed neu ofid uniongyrchol i'r claf, ond dylid cywiro'r oedi cyn i'r claf gael

y gofal angenrheidiol a dylid ystyried rhoi gwybod i'r claf am y rhesymau dros hyn.

28. Mewn rhai amgylchiadau, nid oes angen i gleifion wybod am rywbeth nad yw wedi achosi (ac na fydd yn achosi) niwed iddynt, a gall dweud wrthynt eu poeni neu eu drysu'n ddiangen.
29. Yn yr un modd â phob digwyddiad niweidiol, dylai'r rhai sydd wedi cofrestru ystyried pam y digwyddodd hyn a pha gamau y dylid eu cymryd yn y dyfodol i atal hyn rhag digwydd eto drwy rannu'r hyn a ddysgwyd i helpu i sicrhau diogelwch cleifion.

## Dysgu o ddigwyddiadau andwyol

30. Pan fydd pethau'n mynd o chwith gyda gofal cleifion, mae'r achos fel arfer naill ai'n wendid mewn system sefydliadol neu'n wall dynol. Mae'n bwysig bod gwersi'n cael eu dysgu er mwyn diogelu cleifion y dyfodol rhag niwed. Mae Safon 5 a Safon 12 o'r *Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi* yn annog cofrestryddion cwbl gymwys i fyfyrion ar eu hymarfer er mwyn diweddarau eu gwybodaeth a'u sgiliau a sicrhau amgylchedd diogel i gleifion.
31. Fel gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, dylech adolygu eich safonau a'ch perfformiad eich hun yn rheolaidd fel yr amlinellir yn y *Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi*: '5.4 Myfyrion ar eich ymarfer a cheisio gwella ansawdd eich gwaith drwy weithgareddau fel adolygiadau, archwiliadau, arfarniadau neu asesiadau risg. Rhwch unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio o'r rhain ar waith.' Dylech gymryd rhan mewn adolygiadau ac archwiliadau rheolaidd o'r safonau a'r perfformiad y mae eich tîm, eich practis neu'ch cyflogwr yn eu gweithredu at y diben hwn a chymryd camau i ddatrys unrhyw broblemau.

32. Dylech ystyried pa gamau y gallwch eu cymryd fel unigolyn i atal digwyddiad andwyol rhag digwydd eto. Efallai fod gan eich cyflogwr, corff proffesiynol neu gorff cynrychioliadol neu sefydliadau eraill brosesau neu bolisiâu ar waith i helpu unigolion i gasglu, adolygu a rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau andwyol er mwyn gwella ymarfer a dylid defnyddio'r rhain lle bo hynny'n briodol.
33. Yn dibynnu ar eich rôl a chwmpas eich ymarfer, efallai y byddwch hefyd yn gallu defnyddio nifer o gynlluniau cenedlaethol yn y DU sy'n cael eu defnyddio i roi gwybod am ddigwyddiadau andwyol ac i weithwyr gofal iechyd proffesiynol adolygu'r hyn a ddysgwyd o'r digwyddiadau hyn i lywio arferion da. Mae'r rhain yn cynnwys:
- a. Cynllun Cerdyn Melyn y DU gyfan sy'n cael ei redeg gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) ar gyfer rhoi gwybod am adweithiau niweidiol posibl i gyffuriau neu ddigwyddiadau niweidiol sy'n ymwneud â dyfeisiau meddygol (gan gynnwys sbectol a lensys cyffwrdd): **[www.gov.uk/report-problem-medicine-medical-device](http://www.gov.uk/report-problem-medicine-medical-device)**. Cyfeiriwch at y canllawiau cyflenwi annibynnol ar gyfer optometryddion i gael rhagor o fanylion am adweithiau niweidiol i gyffuriau.
  - b. Y System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu i roi gwybod am ddigwyddiadau niweidiol a digwyddiadau diogelwch cleifion yng Nghymru a Lloegr (ar gyfer cofrestryddion sy'n darparu gofal y GIG): **<https://report.nrls.nhs.uk/nrlsreporting>**
  - c. Fframwaith cenedlaethol Gwella Gofal Iechyd yr Alban, sy'n amlinellu diffiniadau cyson a dull safonol o reoli digwyddiadau niweidiol ar draws y Gwasanaeth Iechyd

Gwladol (GIG) ar gyfer yr Alban:  
[www.healthcareimprovementscotland.org](http://www.healthcareimprovementscotland.org)

d. Mae'r drefn ar gyfer cofnodi a mynd ar drywydd digwyddiadau niweidiol difrifol yng Ngogledd Iwerddon wedi'i nodi ar wefan yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys Canolfan Digwyddiadau Andwyol Gogledd Iwerddon (NIAIC) ar gyfer adrodd ac ymchwilio'n wirfoddol i ddigwyddiadau niweidiol sy'n ymwneud â dyfeisiau meddygol, offer anfeddygol, offer ac elfennau adeiladu ac am ddarparu canllawiau diogelwch perthnasol yng nghyswllt yr eitemau hyn:  
**[www.health-ni.gov.uk](http://www.health-ni.gov.uk)**

34. Os ydych chi'n fyfyrwr optegol, dylech ymgynghori â'ch goruchwyliwr, eich tiwtor neu eich darparwr hyfforddiant ynghylch unrhyw gamau angenrheidiol i lywio'r dulliau dysgu o ddigwyddiadau andwyol sydd wedi digwydd yn ystod eich hyfforddiant.

## **Optometryddion ac optegwyr cyflenwi a chanddynt gyfrifoldebau rheoli neu broffil uchel**

35. Mae gan optometryddion ac optegwyr cyflenwi mewn swyddi dylanwadol gyfrifoldeb arbennig i osod esiampl ac annog didwyllledd a gonestrwydd wrth adrodd am ddigwyddiadau andwyol.

36. Dylai optometryddion ac optegwyr cyflenwi sydd â chyfrifoldebau rheoli roi cyngor ac arweiniad i gydweithwyr ar gydymffurfio â'r ddyletswydd gonestrwydd.









## Ffymatau eraill

Gallwch gael y llyfryn hwn yn Saesneg neu mewn fformatau eraill drwy anfon e-bost at [communications@cpd.org.uk](mailto:communications@cpd.org.uk)